Cynhaliwyd cyfarfod or Cyngor ar 19 o Fawrth 2021 am 8.00 or gloch ar Zoom, yn bresenol oedd Llyr Jones, Wyn Jones, Generys Roberts, Eryl Evans, Helen Jones, Gethin Jones ar cynghorydd Peter Lewis.

Cadarnhawyd bod y cofnodion blaenorol yn gywir.

Awdit - Y ffurflen blynnyddol wedi ei dychwelyd ar archwiliad wedi cwbwlhau un mater a ddaeth i law sef bod y balans y gronfa cyffredinnol yn ymddangos yn uchel – pasiwyd i benodi y flwyddyn nesa yma bod swm yn cael ei glustnodi tuag at ail adnewydd y festri i gynnal canolfan ir pentref pan fydd yr amser yn caniatau.

Hope House – llythyr diolch am ein cyfraniad o £100.00.

Sefydliad Addysgol Cerrig y Drudion – yn gofyn am gyfraniad – pasiwyd i roi £100.00.

Cyngor Conwy grant gwaith Chwarae – nid wedi derbyn unrhyw ymateb in cais a roddwyd i brynnu goliau Newydd ir cae chwarae.

Cyngor Bwrdeisdref sirol Conwy – tal rent am y toiledau £1.00. taliad D.D.

Lelo sgip – anfoneb am sgip mis Rhagfyr £312.00 – pasiwyd iw dalu.

Dwr Cymru – anfoneb dwr ir toiledau £55.85 – taliad D.D.

Cyngor Bwrdeisdref sirol Conwy – precept £1600.00 taliad ola 2020.

Cyflog y clerc - £1200.00 – pasiwyd iw dalu.

HMRC - PAYE £300.00 – pasiwyd iw dalu.

FFerm wynt Brenig – cais wedi ei roi mewn am gael ffens yn y cae chwarae yn y Gro.

Tori Gwair – pasiwyd i ofyn ir Alan Davies dori y gwair yn y ddwy fynwent eto eleni.

Eifl Roberts – pasiwyd gofyn iddo edrych ar ol y potiau blodau yn y pentref eto eleni – pasiwyd gyfrannu i £100.00

Archwilydd mewnol – pasiwyd gofyn eto eleni i Teleri Jones edrych ar y gyfrifon.

Cynllun gwariant - nodwyd.

Diffubulator – Mae Tomos Hughes wedi roi padiau newydd ac dywedodd ei fod wedi cael arian i ariannu i gael sticeri ir blwch ond mi fydd cost fechan i Rhys Jones am waith trydan. – pawb yn hapus i hynn ddigwydd.

Sgip – pasiwyd i gael sgip yn mis Mai.

Ad – daliad TAW - £82.00.

Unllais Cymru – tal aelodaeth - £32.00 – pasiwyd iw dalu.

Mynwent Newydd – cafwyd cwyn am dyfiant y gwrych drain sydd yn tyfu drosodd ir cerrig beddi – pasiwyd bod y clerc yn cysylltu efo Alan Davies i dori y gwrych.

Peter Lewis – dywedodd ei fod wedi ychwanegu ffordd wrth Bryn Gwrgi, Berthlwyd a Cae LLoi iw cael iw rhoi ar restr ail wynebu ffyrdd.

Daeth y cyfarfod i ben 8.45.

Dyddiad nesaf   Mis Mai 2021.